

### Archif Menywod Cymru'n ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol

Ar ddydd Gwener Awst 10fed, yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2012, a gynhaliwyd yn Llandw, Bro Morgannwg, torrodd Archif Menywod Cymru dir newydd drwy gynnal digwyddiad drwy gyfrwng y Gymraeg, o dan gadeiryddiaeth Catrin Stevens, gydag Annest Wiliam yn cyfieithu.



Ellen Evans a staff Coleg Hyfforddi'r Barri. Dydd Gŵyl Dewi 1953

gyfrif ganiatáu iddi fynd yn angof. Bu ei chyfraniad ym maes addysg yng Nghymru yn amhrisiadwy, yn arbennig ei harweiniad a'i dylanwad ar ddatblygiad addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Derbyniodd anrhydedd C.B.E. yn 1948, a chyn ei marwolaeth daeth yn un o sefydlwyr un o ysgolion Cymraeg cyntaf y de-ddwyrain yn y Barri yn 1951.

Prin fod angen datgan i Goleg Hyfforddi'r Barri gynhyrchu nifer dirifedi o athrawon ymroddedig a llwyddiannus yn ystod y cyfnod pan yr oedd Ellen Evans wrth y llyw. A chadw hyn mewn golwg, neilltuwyd ail ran y sesiwn i rannu atgofion am y cyfnod. Gan Mary Rishko, gor-nith Ellen Evans, cafwyd darlun personol a chofiadwy ohoni fel Bopa annwyl a fyddai'n adrodd stori Cantre'r Gwaelod gydag arddeliad pan oedd ar ei gwyliau blynyddol ym mro ei hynafiaid yn Llan-non, Ceredigion. Yna, esgynnodd Iris Williams a Hawys Glyn James i'r llwyfan i rannu eu hatgofion hwy fel cyn-fyfrwyr am y cyfnod a dreuliasant o dan lygad barcud Ellen Evans, mentor yr oeddent yn ei chofio gyda pharch ac edmygedd. Yn y chwedegau y bu Elinor Elias Jones yn fyfrwraig yn y Barri, cyfnod pan oedd y myfrwyr yn dechrau herio'r drefn haearnadid draddodiadol. Cyn cloi cawsom ein diddanu gan un o gyn-ddarlithwyr y Coleg, Islwyn Jones (Gus) enwog am ei anecdotau ffraeth, llawn hiwmor iach. Petai amser wedi caniatáu gellid bod wedi mwynhau awr arall o atgofion, ond am 1.00 o'r gloch bu'n rhaid ildio'n lle i Lys yr Eisteddfod, a chyn ymadael cydganwyd cân Coleg y Barri, *Cofia Ddysgu Byw*.

Llwyddodd Catrin i roi at ei gilydd gasgliad o luniau, dogfennau ac arteffactau a anfonwyd ati gan gyn-fyfrwyr, ac yn dilyn y sesiwn, cafwyd cyfle i edrych arnynt allan ar fwrdd arddangos ar y maes ynghyd â llawer o sgwrsio a hel atgofion. Y gobaith yw y bydd y rhain yn ychwanegu at gasgliad Archifdy Morgannwg ac ar gael i unrhyw â diddordeb yn arbennig aelodau Archif Menywod Cymru. Teimlwyd bod y fenter wedi bod yn llwyddiant ysgubol, diolch i barodwydd Sian i ddarlithio ac i drylwyredd Catrin Stevens fel trefnydd. Pwy a wŷr na fydd cynnal sesiwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn datblygu'n un o ddiwyddiadau blynyddol Archif Menywod Cymru?

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr gan bob aelod. Os gellwch chi ysgrifennu'n ddwyieithog byddem yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau at: [newsletter@womensarchivewales.org](mailto:newsletter@womensarchivewales.org) os gwelwch yn dda

#### Dyddiad copi i'r rhifyn nesaf Dydd Gwener 16<sup>eg</sup> Tachwedd 2012

Os hoffech chi gopi print mawr o'r Cylchlythyr hwn yn Gymraeg neu'n Saesneg, cysylltwch â Caroline ar y cyfeiriad e-bost uchod o.g.y.dd. neu ffoniwch 01873 890540.

Golygwyd y Cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, a'i gyfieithu gan Catrin Stevens, Rosanne Reeves a Luned Meredith.

## Apêl Murluniau Brenda Chamberlain

Eleni mae'n ganmlwyddiant genedigaeth Brenda Chamberlain, un o artistiaid mwyaf blaengar yr ugeinfed ganrif yng Nghymru. Enillodd Wobr Celfyddyd Gain yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith ac arddangoswyd ei gwaith yn eang. Yr oedd hefyd yn awdur a bardd, a chyhoeddodd nifer o gyfrolau hunangofiannol oedd yn cynnwys ei darluniau hi ei hunan.

Un o'r rhain oedd *Tide-Race* (1962) sy'n adlewyrchu'r 15 mlynedd a dreuliodd rhwng 1946 a 1961 ar ynys Enlli ger Penrhyn Llyn yng ngogledd Cymru. Yr oedd, ac y mae Enlli yn ynys hardd, gyfoethog mewn bywyd gwylt a hanes. Yr oedd yn sicr yn ysbrydoliaeth iddi hi ac yr oedd y rhain yn flynyddoedd cynhyrchiol. O'r fan hon yr anfonodd y gweithiau a enillodd wobrau'r Eisteddfod Genedlaethol yn 1951 a 1953 a chyhoeddodd gyfrol o gerddi *The Green Heart*. Roedd yn byw gyda'i phartner, Jean van der Bijl, yn ffermdy mawr Carreg Fawr. Etifeddodd Enlli nifer o furluniau eithriadol a luniwyd ganddi y gellid gweld y rhai a oroesodd ar ben grisiau uchaf y tŷ.



Brenda Chamberlain yn y 1950au

Dros y blynyddoedd, maent wedi dirywio'n sylweddol ac mewn mawr angen am achubiaeth. Mae Ymddiriedolaeth Ynys Enlli, sy'n berchen ac yn rhedeg yr ynys, yn cefnogi'n llwyr weithgaredd y grŵp bychan o bobl frwdfrydig sydd wedi dod at ei gilydd i ffurfio Cyfeillion Murluniau Enlli Brenda Chamberlain. Mae'r grŵp wedi comisynu'r warchodwraig Jane Foley i ymgymryd â'r gwaith cychwynnol sydd ei angen i ddiogelu'r murluniau, a rhagwelir y bydd peth gwaith adferol hefyd yn cael ei wneud.

Fedrwch chi helpu?

Mae'r prosiect wedi sicrhau grant oddi wrth gronfa Treftadaeth y Loteri ac er mwyn sicrhau'r cyfanswm sydd ei angen ar gyfer cwblhau'r gwaith, rydym yn chwilio am noddwyr sy'n barod i addo swm o arian tuag at y gost, neu a fedr gyfrannu'n ddiymdroi. Pan fydd y gwaith ar y gweill bydd yr addewidion yn cael eu galw i mewn. Os gwelwch yn dda cysylltwch â mi ar [lunedmeredith607@btinternet.com](mailto:lunedmeredith607@btinternet.com) neu Peter Lockyer ar [peter.lockyer81@tiscali.co.uk](mailto:peter.lockyer81@tiscali.co.uk) os fedrwch chi helpu. Gwerthfawrogr pob cyfraniad

Luned Meredith

Noder: cyhoeddir bywgraffiad Jill Piercy o Brenda Chamberlain yn hwyrach eleni. Ym mis Hydref bydd Jill a Ceridwen Lloyd-Morgan yn arwain Taith Brenda Chamberlain o gwmpas y lleoliadau allweddol ym Mangor a gerllaw, lle'i ganed a lle bu farw.



Murlun Brenda Chamberlain *Girl on the Strand* fel yr oedd (ar y chwith) yn 1984, ac (ar y dde) yn 2011, y dangos y dirywiad.

## Adroddiad o Gyfarfod Pwyllgor 29 Mehefin 2012

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn Archifdy Morgannwg, Caerdydd. Roedd Shan Robinson yn bresennol, ond yn anffodus nid oedd yn bosibl i Sue Trevelyan-Jones ymuno â ni.

Cytunwyd y byddai aelodau AMC/WAW sydd ddim wedi talu'u tanygrifiadau am ddwy flynedd yn cael eu dileu o'r data-bas fel na allent gael mynediad i adran yr Aelodau ar y wefan. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Fawnes Kinnock, Kirsty Williams a Ffion Hague i'w hannog i ail-ymaelodi. Byddai is-bwyllgor yn cwrrd yn yr haf i drafod y posibilrwydd o roi Cyfarwyddiadur o ddiddordebau Aelodau ar y wefan. Byddai'r mater hwn yn dod gerbron y Cyfarfod Blynyddol hefyd.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn union cyn digwyddiad AMC/WAW yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a rhoddodd Catrin Stevens adroddiad ar y trefniadau gan gynnwys y cyfieithu ar y pryd. O safbwynt cyfieithu cytunwyd i ofyn i Rosanne Reeves a Katie Gramich helpu Catrin Stevens gyda chyfieithu defnyddiau AMC/WAW. Cytunodd y Pwyllgor ar bolisi cyfieithu.

Sicrhodd Caroline Fairclough ni fod trefniadau'r Gynhadledd Flynyddol ar y gweill ac atgoffodd ni y byddai stondin llyfrau ail-law yno i godi arian, felly dewch â llyfrau yn ymwneud â materion a hanes menywod. Cytunwyd bod angen mwy o weithgarwch codi arian yn gyffredinol. Cyflwynodd Avril Rolph bapur ymchwil ar y pwnc. Cymeradwyodd ddull newydd o godi arian, sef trwy *BigGive* ar-lein a *JustTextGiving*, cyhyd â bod y Trysorydd o blaid hynny hefyd. Mae'r ddau ddull yn rhad ac am ddim.

Mae grŵp Gogledd Cymru wedi trefnu digwyddiad yn enw AMC/WAW ar 29ain Medi ym Mangor. Cylchredwyd manylion Cynhadledd NAASWCH ym mis Gorffennaf hefyd. Byddai rhai o aelodau'r Pwyllgor yn mynychu Cynhadledd Genedlaethol Rhwydwaith Hanes Menywod yng Nghaerdydd ar 7fed- 9fed Medi. Roedd Caroline Fairclough a Susan Edwards yn bwriadu mynychu gwersyll Cytgord y Merched ym mis Awst, gan eu bod wedi gofyn am gyfraniad am hanes. Cynigiodd Avril Rolph baratoi detholiad o ddelweddau Greenham a gwrthdystiadau eraill ar gyloch PwerBwynt i'w ddefnyddio ar liniadur.

I bwysleisio presenoldeb AMC/WAW yn y digwyddiadau cyhoeddus amrywiol hyn rydym wedi cynhyrchu baneri newydd yn ogystal â chyflwyniad PwerBwynt byrrach ar ein gwaith.

Pwysleisiodd Avril Rolph pa mor bwysig oedd hi i ddiweddarau ein gwefan a'r cyfrifon Twitter a Facebook yn rheolaidd, ac i'r perwyl hwn mae Archifdy Morgannwg wedi cytuno i gynnal hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y Pwyllgor.

Yna, cafwyd trafodaeth ar brosiect newydd. Cyflwynodd Deirdre Beddoe bapur anffurfiol ar bosibilrwydd ymchwilio i hanes *Menywod yn y Diwydiant Cynhyrchu yng Nghymru wedi'r Ail Ryfel Byd*. Awgrymwyd y gellid trafod gweithio mewn partneriaeth gyda *Llafur* ar hyn. Prosiect Hanes Llafar fyddai e gydag aelodau yn gweithio yn eu hardaloedd daearyddol eu hunain. Penderfynwyd sefydlu is-grŵp, sef Catrin Stevens, Rosemary Scadden a Caroline Fairclough i lunio arolwg cychwynnol,.

Cododd llythyr oddi wrth Gwenda Lloyd Wallace fater hawlfraint un o'n hadneuon. Cytunodd Jenny Sabine i ffonio Sue Hamill i olrhain perthnasau'r rhoddwr, ond mae angen sefydlu protocol parthed hawlfraint. Awgrymodd Charlotte Hodgson ein bod yn prynu llyfr Padfield ar hawlfraint. Dylem sefydlu rhestr o brisiau a sicrhau ein bod yn gadael trywydd papur i ddangos sut y ceisiwyd olrhain deiliaid hawlfraint. Gofynnwyd i Sue Thomas lunio papur byr ar y pwnc.

Nododd Charlotte Hodgson fod dogfennau Canolfan Menywod Caerdydd yn cael eu rhoi ar adnau i Archifdy Morgannwg trwy AMC/WAW.



### Llyfrau Ail-law am Fenywod

### Stondin godi arian yng Nghynhadledd 2012

#### Gwaredwch llyfrau i gefnogi Cynhadledd 2012!

Oes gennych chi fwy nag un copi o rai o glasuron ysgrifennu menywod, wedi prynu argraffiad newydd am fod ganddo glawr gwahanol efallai? Oes cywilydd amoch chi efallai am eich gor-frwdfrydedd pan oeddech chi'n ifanc? Ydych silffoedd chi'n gwegian dan bwysau gor-brynu? Ydych chi eisiau gwaredu rhai llyfrau? Ydych chi eisiau rhannu'ch ffefrynnau?

Bydd y llyfrau sydd dros ben gennych – llyfrau ar hanes, materion, cofiannau a ffuglen glasurol yn ymwneud â menywod – yn help i gynnal y Gynhadledd yn Y Fenni eleni. Bydd stondin llyfrau ail-law gydol y penwythnos er budd AMC/WAW.

Dewch â'ch llyfrau gyda chi, neu rhowch nhw i aelod o'r Pwyllgor cyn 12<sup>fed</sup> Hydref.

Os oes gennych ymholiadau anfonwch e-bost at [conference@womensarchive.wales.org](mailto:conference@womensarchive.wales.org)

Cyfarfod Blynyddol am 2.00 Dydd Sadwrn 13<sup>eg</sup> Hydref. Darllenwch y papurau ymlaen llaw o.g.y.dd!

## Wedi eu hanghofio o hyd?

“...mae adroddiadau ar gymunedau glofaol nid yn unig wedi anghofio'r fenyw sengl a'r weddw, ond wedi mewnnoli safbwynt y glowyr gwrywaidd'. (Angela John, *By the Sweat of their Brow: Women Workers at Victorian Coal Mines*, Llundain, 1984, t.14) Dyna a ddwedodd yr Athro Angela John bron 30 mlynedd yn ôl. Er bod y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cyfeirio at astudiaeth o hanes menywod, ychydig iawn o dystiolaeth sydd bod hynny yn digwydd mewn ysgolion. Penderfynodd cynhadledd AMC y llynedd y dylid sefydlu gweithgor i ddatblygu adnoddau i gynorthwyo ysgolion i dalu'r sylw priodol i hanes menywod.

Mae aelodau'r gweithgor wedi bod yn ystyried y ffordd orau ymlaen, ac erbyn hyn yn paratoi dau becyn o adnoddau i'w trafod yn y gynhadledd nesaf. Mae un ar gyfraniad menywod i gymunedau morwrol Cymru o 1800 –1920, a'r llall ar eu cyfraniad i'r cymunedau diwydiannol. Mae Casgliad y Werin Cymru hefyd wedi cyfrannu £1000 hael tuag at ddatblygu'r defnydd o'r adnoddau hyn ar wefan Casgliad y Werin Cymru. Gobeithio y daw llawer ohonoch i drafod yr adnoddau yn y gynhadledd.

Elin Jones

## Cynhadledd NAASWCH

Does dim angen cyflwyno cymdeithas *The North American Association for the Study of Welsh Culture and History* gan fod y teitl yn egluro'r cyfan. Am yr eildro'n unig cynhaliodd y gymdeithas ei chynhadledd ddwyflynyddol yng Nghymru (26-28 Gorffennaf), ym Mhrifysgol Bangor.

Gydol y tri diwrnod, cyflwynodd academyddion ac eraill o Gymry a Gogledd America bapurau amrywiol, yn bennaf am Gymru a rhai am Gymry yng Ngogledd America a Phatagonia. Y brif broblem i'r mynychwyr oedd ceisio penderfynu p'run o'r tri neu bedwar sesiwn oedd yn cydreddeg i'w fynychu! Roedd nifer reit dda ohonynt yn cynnwys hanes menywod.

Roedd hi'n braf cwrrd â rhai o aelodau'r Archif ymysg y siaradwyr a'r mynychwyr. Trefnodd ein haelod lleol o'r pwyllgor, sef Shan Robinson, fod ein taflen gyhoeddusrwydd a'n nod llyfr ym mhacyn gwybodaeth pob un o'r mynychwyr, ac es i â'n baner newydd i'w harddangos gydol y gynhadledd, felly gobeithio yr enillwn ni aelodau newydd.

Mewn sesiwn o'r enw 'Wales and Women', a gadeiriwyd gan aelod o'r Archif, Dinah Evans, cyflwynodd Shan Robinson ei hymchwil ar '*Dilys Glynne Jones and the Association for Promoting the Education of Girls in Wales, 1886-1901*'. Roedd hi'n ddiddorol iawn i glywed hanes ffeminydd arloesol o'r fath a gafodd effaith go iawn ar addysg merched. Yna cyflwynodd Annie Williams sgwrs BwerBwynt fer newydd AMC/WAW a chafwyd trafodaeth gyffredinol ar waith yr Archif.

Jenny Sabine.

Dim neges gan y Cadeirydd, oherwydd bod system dechnoleg newydd wedi methu! Mae'n edrych ymlaen at eich gweld yn y Gynhadledd.

### Seminar Hanes Merched / Women's History

#### Seminar

ar y cyd ag

### Archif Menywod Cymru/Women's Archive of

#### Wales

Dydd Sadwrn Medi 29/ Saturday

September 29

10 – 1 pm

Ystafell Gynadledda'r Teras

Prifysgol Bangor University

#### Siaradwyr/Speakers

##### Marian Gwyn

*'Britain's Enslaved Women - The Struggle for Identity and Independence in 18th Century Jamaica.'*

##### Annie Williams

*'Unending Labour: Women Domestic Servants in Nineteenth Century Anglesey.'*

##### Shan Robinson

*Rare Book Collection: University Bangor*

Croeso i Bawb/Everyone Welcome



Y faner newydd y soniodd Jenny amdani fel y gwelwyd hi yng Nghynhadledd Rhwydwaith Hanes Menywod, Caerdydd Medi 7fed-9fed, 2012